




CHANGEMAKERS

Adeiladu eich Brand Personol ar gyfer Cyflogaeth Gynaliadwy



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

CYFLWYNIAD MODIWL

Cynnwys

3. Trosolwg o'r Modiwl
5. Strwythur y Modiwl
8. Llywio drwy'r Modiwl

Ni yw Prif Weithredwyr
ein cwmnïau ein
hunain. Ff corfforedig.

I fod mewn busnes
heddiw, ein gwaith
pwysicaf yw bod
yn brif farchnatwr y
brand a elwir yn CHI.

Tom Peters



BRANDIAU ydyn ni i gyd.

Mae gyda ni ein mantolenni deallusol a'n henwau brand ein hunain,
rhaid i ni fuddsoddi yn ein hunain a marchnata'n hunain.

Croeso i'r Modiwl

Changemakers: Adeiladu eich Brand Personol ar gyfer Cyflogaeth Gynaliadwy

Prif nod y modiwl yw eich cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen ar gyfer gwydnwch gyrfa a datblygu proffesiynol ar gyfer cyd-destun gwaith yn y dyfodol.

Pa un a ydych chi'n gwybod hynny ai peidio, mae gennych chi frand personol. Pan fyddwch chi'n Gwglu eich hun, beth ydych chi'n ei weld? Os oes gennych chi ddêd neu gyfweliad am swydd, mae'n eithaf tebygol y bydd rhywun yn eich Gwglu chi i ddysgu mwy amdanoch chi a chanlyniadau'r chwilio yw'r argraff gyntaf y byddan nhw'n ei chael ohonoch chi. Ydy hon yn argraff dda? Ydy'r wybodaeth rydych chi'n ei rhannu ar safleoedd y cyfryngau cymdeithasol yn gyson? Ydych chi am ganiatáu i'ch enw da ar-lein gael ei fywyd ei hun neu ydych chi am reoli'r naratif?

Gyda'r twf yn y cyfryngau cymdeithasol a'r economi gig, mae'n hanfodol i bawb gofleidio brandio personol ac er y gallai ymddangos fel ymarfer o hunan-hyrwyddo neu falchder personol, o'i wneud yn iawn gall fod yn llawer mwy na hynny.

"Eich brand yw'r hyn mae pobl yn ei ddweud amdanoch pan nad ydych chi yn yr ystafell."

Jeff Bezos

Gall datblygu eich brand fod yn ymarfer personol mewn sefydlu hyder, hygredd a dewrder, yn ogystal â'ch helpu chi i ddiffinio eich blaenoriaethau a chanolbwyntio ar yr elfennau o'ch bywyd rydych chi'n eu mwynhau fwyaf.

Pam fod hyn yn bwysicach nag erioed


Yn ôl arolwg CareerBuilder yn 2018, mae 70% o gyflogwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i sgrinio ymgeiswyr yn ystod y broses gyflogi, ac mae 43% o gyflogwyr yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i wirio eu gweithwyr presennol. Rheswm arall bod brandio personol yn werthfawr yw nad yw'r economi gig yn mynd i ddiffannu yn y dyfodol agos.

Ar gyfartaledd, mae unigolyn yn newid swydd bob 2 i 3 blynedd ac mae gwaith llawrydd a chontract yn parhau ar gynnydd. Dywed Diane Mulcahy, awdur *The Gig Economy*,

“Dim on un tueddiad ydym ni’n ei weld yma, sef bod yr economi gig yn fawr ac yn tyfu. Bydd cwmnïau’n gwneud unrhyw beth posibl i osgoi cyflogi gweithwyr llawn amser. Ar ben hynny does dim sicrwydd swydd bellach, ac

mae gweithwyr yn gynyddol ymwybodol fod angen iddyn nhw weithio’n wahanol os ydyn nhw am greu unrhyw sefydlogrwydd iddyn nhw eu hunain.”

O ganlyniad, mae angen i weithwyr allu cyfleu’n glir pwy ydyn nhw a beth maen nhw’n ei wneud i dynnu sylw cleientiaid a chyflogwyr posibl. Os nad ydych chi’n rheoli eich brand personol yn effeithiol, yna mae risg y cewch eich gadael ar ôl.



Strwythur y Modiwl

Mae'r modiwl yn cynnwys 4 uned ac fe'i cynllunnir i gefnogi datblygiad eich brand personol yn defnyddio pum cam penodol fel fframwaith.

Uned 1 Eich Brand Chi (Pwrpas a Chynnig)

Un o'r camau cyntaf wrth ddatblygu brand personol yw diffinio eich gwerthoedd a beth rydych chi'n sefyll drosto. Rydych chi am sicrhau brand personol sydd wir yn eich disgrifio chi ac sy'n apelio at eich cynulleidfa.

Eich 'pam' chi yw'r hyn sy'n eich cymell – y rheswm rydych chi'n codi o'r gwely. Mae gwybod pam eich bod yn gwneud beth rydych chi'n ei wneud – ac atgoffa eich hun o hynny – yn eich helpu gydag uchafbwyntiau ac isafbwyntiau bywyd. Mae nodi eich cymhelliant, a defnyddio hynny'n rhan o'ch stori yn eich grymuso ac yn rhoi egni i chi.

Bydd pynciau 1 a 2 yn eich helpu i feddwl am eich pwrpas a sut mae hyn yn cyfrannu at lwyddiant y dyfodol, a bydd pynciau 3 a 4 yn eich cynorthwyo i ddarganfod y sgiliau sydd gennych i gyflwyno eich cynnig unigryw.

Y pedair uned yw:


1. Eich Brand Chi (Pwrpas a Chynnig)
2. Byd Bach (Pobl)
3. Cyfle'n Codi (Pecynnu)
4. Ar Drywydd Hapusrwydd (Dyfalbarhad)

Pwnc 1: 'Ambition is Critical'

Pwnc 2: Beth sy'n eich Sbarduno chi?

Pwnc 3: Gyrfaoedd heb Ffiniau

Pwnc 4: Sgiliau heb Ffiniau



Uned 2

Byd Bach (Pobl)

Er bod elfen negyddol i'r term 'nid beth ydych chi'n ei wybod, ond pwy ydych chi'n ei adnabod', does dim gwadu y bydd eich rhwydwaith bersonol o gysylltiadau'n dylanwadu ar godi eich statws ac yn paratoi'r ffordd at well cyfleoedd gyrfa. Mae eich cysylltiadau'n bwerus! Mae cael rhwydwaith da yn offeryn allweddol i feithrin gyrfa ddyfeisgar.

Yn yr uned hon byddwch yn dysgu sut y caiff rhwydweithiau eu ffurfio a phwysigrwydd datblygu rhwydweithiau agored, dwys ac amrywiol.

Pwnc 1:
Does Neb yn Ynys

Pwnc 2:
Amrywiaeth sy'n rhoi Blas i Fywyd

Pwnc 3:
Cymdeithas Rhwydwaith

Pwnc 4:
Creu Cysylltiadau



Uned 3

Cyfle'n Codi (Pecynnu)

Mae'r ffordd rydym ni'n ein pecynnu ein hunain yn cyfleu pwy ydym ni drwy:

- Ymddangosiad
- Llais
- Iaith y corff
- CV
- Blogiau a llwyfannau ar-lein eraill

Yn yr uned hon cewch gymorth i ddatblygu meddylfryd ac offer i gyflwyno'r fersiwn gorau ohonoch chi eich hun, a'ch gosod mewn lle i fanteisio ar gyfleoedd.

“Chewch chi fyth ail gyfle i wneud argraff gyntaf.

Will Rogers
– Awdur ac Actor

Pwnc 1:
Creu eich Lwc eich Hun

Pwnc 2:
Adnabod Cyfleoedd

Pwnc 3:
Agor Drysau

Pwnc 4:
Me.com

Uned 4

Ar Drywydd Hapusrwydd (Dyfalbarhad)

“Mae llinell denau iawn rhwng llwyddo a methu... mae'n ymwneud â chael eich curo'n barhaus a dod yn ôl ar ôl y cyfnodau anodd a'r adegau isel”

Robbie Brozin, Nandos

Y bobl fwyaf llwyddiannus yw'r rheini sydd - er gwaethaf cael eu taro'n ôl - yn dychwelyd i atgyfnerthu eu neges gyda mwy o bŵer ac ystyr yn barhaus. Mae cynnal ffocws ar beth ydych chi'n awyddus i'w gyflawni'n galw am wydnwch, cryfder ac ysbrydoliaeth hefyd weithiau. Bydd yr uned hon yn cyflwyno technegau ar gyfer goresgyn credoau sy'n cyfyngu, datblygu cryfder a gwydnwch a sut y gallwch geisio ysbrydoliaeth gan eraill pan nad yw pethau o reidrwydd yn mynd o'ch plaid.

Pwnc 1:
Fi yn y Dyfodol

Pwnc 2:
Angerdd a Dyfalbarhad

Pwnc 3:
Cynllunio, Paratoi, Perfformio

Pwnc 4:
Modelau Rôl Gyrfa



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David
